

Datganiad Polisi Ynni Prifysgol Aberystwyth

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod bod pob agwedd o’i gweithrediadau yn defnyddio ynni. Mae’r Brifysgol yn ymrwmo i fod mor effeithlon â phosibl yn ei defnydd o ynni ac adnoddau naturiol er mwyn lleihau ei heffaith ar yr amgylchedd a’i chostau ynni. Cydnabyddir y bydd angen newidiadau mawr yn y tymor hirach i gyflawni’r nodau hyn.

Wrth roi ISO14001 ar waith, bydd y Brifysgol yn mabwysiadu’r egwyddorion canlynol:

- Cydymffurfio â’r holl ofynion cyfreithiol perthnasol a thargedau’r sector, ynghyd â chanllawiau eraill sy’n ymwneud ag ynni y mae’r Brifysgol yn tanysgrifio iddynt.
- Monitro a mesur defnydd o ynni ar draws y Brifysgol gyfan, gan fesur defnydd a nodi defnydd sylweddol ac annormal o ynni.
- Adrodd ar y defnydd o ynni, costau ac allyriadau perthnasol i’r Athrofeydd ac i’r uwch reolwyr.
- Lleihau defnydd o ynni drwy raglen waith wedi’i thargedu a’i chynllunio i leihau’r defnydd o ynni a gwella effeithlonrwydd.
- Datblygu rhaglen barhaus o gynnal a chadw ataliol er mwyn gwella effeithlonrwydd systemau ynni.
- Ystyried goblygiadau ynni pob datblygiad ar y campws ar gam cynnar yn y gwaith, er mwyn cyflawni’r safonau uchaf posibl o effeithlonrwydd ynni.
- Gradd BREEAM Rhagorol ar gyfer adeiladau newydd ac o leiaf Da lawn ar gyfer pob adnewyddu sylweddol.
- Ystyried goblygiadau defnydd ynni mewn perthynas â phob penderfyniad caffael ar gam cynnar yn y gwaith ac integreiddio gwybodaeth cylch oes i benderfyniadau caffael.
- Lle bo’n ymarferol, caffael ynni o ffynonellau adnewyddadwy a / neu leol er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnydd o danwydd ffosil a cholledion trosglwyddo.
- Cynhyrchu trydan a gwres ar y campws gan ddefnyddio’r dull mwyaf effeithlon, a dethol a phrofi ffynonellau adnewyddadwy lle bo’n bosibl.
- Defnyddio a datblygu ymchwil ac arloesi masnachol unigryw mewn perthynas â’r adnoddau naturiol sy’n bodoli ar draws y Brifysgol i ddeall y potensial ar gyfer effeithlonrwydd ynni.
- Gweithio gyda staff, myfyrwyr, contractwyr, partneriaid masnachol ac ymwelwyr i sicrhau bod pawb yn gwbl ymwybodol o Bolisi Ynni’r Brifysgol a’r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Darparu a datblygu rhaglen o addysg a chyngor yn ymwneud â materion ynni fel bo’r angen.

Llofnod:

Dyddiad: 16 Mai 2014

Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor